17EG O EBRILL

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Calendr

**Gŵyl y Banc**
**4/5/26**

**Bore Agored Math**
**7/5/26**

# Croeso nol

Croeso nol i bawb i dymor yr haf! Rydym yn edrych ymlaen at dymor prysur arall, yn llawn gwibdeithiau, cystadlaethau, mabolgampau a gobeithio digon o haul! Rydym wedi danfon "Dyddiadau Pwysig y Tymor" allan heddiw. Byddwn yn ychwanegu at y dyddiadau yma yn ystod y tymor. Cofiwch i wirio'r Cyswllt Wythnosol sy'n cael ei ddanfon allan ar ddydd Mawrth, er mwyn gweld gwybodaeth a newyddion am ddosbarth eich plentyn. Mae'r holl gylchlythyron a'r Cyswllt Wythnosol ar wefan yr ysgol.

### Parcio yn ddiogel

Gofynnwn yn garedig i'n rhieni a'n gwarcheidwaid barcio'n ofalus wrth ymyl yr ysgol. Cofiwch barcio mewn mannau diogel yn unig, a pheidiwch â pharcio mewn llefydd sydd wedi'u dynodi ar gyfer busnesau lleol na mannau sydd wedi'u gwahardd. Mae'n hynod bwysig ein bod yn gwneud hyn er mwyn sicrhau diogelwch ein cymuned ysgol gyfan. Diolch yn fawr iawn i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

### Gwisg Ymarfer Corff

Hoffem eich atgoffa i sicrhau bod eich plentyn yn gwisgo cit ymarfer corff addas ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol y dosbarth. Dylai hyn gynnwys leggings du, trowsus chwaraeon du neu siorts addas, crys T yn lliw eich cymuned, a siwmper ysgol. Nid ydym yn annog disgyblion i wisgo hoodies na leggings llachar ar gyfer y gwersi hyn. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

# <u>Y Nyth</u>

**Dyma rai o’r digwyddiadau sydd i ddod ym mis Ebrill a Mai.**

**Dysgu fel Teulu (Coleg Caerdydd a'r Fro)**
Edrychwn ymlaen at gynnig gweithdy teuluol arall yn ystod tymor yr haf.
**Enw'r Gweithdy:** Ditectifs Natur
**Pryd?** Dydd Mercher, 22ain o Ebrill (9.00yb - 10.30yb)
**Manylion:-**

- Darganfyddwch bŵer dysgu yn yr awyr agored!
- Dysgwch sut gall natur hybu hyder, creadigrwydd a lles eich plentyn.
- Gweithiwch gyda'ch plentyn, mwynhewch stori a hwyl a sbri natur!

Mae'r gweithdy'n addas ar gyfer rhieni plant rhwng 3 a 7 oed.
Cofrestrwch yma, os gwelwch yn dda.

**Dydd Gwener, 24ain o Ebrill am 9:30yb – Rheoli Pryder (Gweithdy i Rieni)**
Sesiwn ddwyieithog dan arweiniad ein seicolegydd addysg, Dr Brianna Bowen-Wride.
Nod y gweithdy fydd rhannu gwybodaeth am bryder a sut i adnabod ei arwyddion. Byddwn yn dysgu strategaethau ymarferol i’w defnyddio gartref ac yn yr ysgol, a bydd cyfle hefyd i rieni rannu profiadau mewn awyrgylch hamddenol a chyfeillgar.
Archebwch eich lle drwy’r ddolen isod, os gwelwch yn dda.
Rheoli Pryder

**Fforwm Rhieni (Rhieni Mabwysiedig)**
**Paned a Chlonc -** cyfle i rieni ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned
**Pryd?** Dydd Gwener, 8fed o Fai (9.00yb – 10.00yb)
Cofrestrwch yma, os gwelwch yn dda, neu mae yna groeso mawr i chi gysylltu â Miss Lewis os hoffech ragor o wybodaeth.

# Clybiau'r tymor

Bydd clybiau allgyrsiol yr ysgol yn dechrau wythnos nesaf, dydd Llun yr 20fed o Ebrill. Mae'r clybiau yn agored i bawb ond gofynnwn yn garedig i chi gofrestru eich plentyn ar ParentPay. Diolch i'r staff sy'n cynorthwyo gyda'r clybiau allgyrsiol. Mae'r clybiau yn gorffen am 4.30yp.

| Llun/ Monday | Mercher/ Wednesday | Iau/ Thursday |
|---|---|---|
| Clwb Hwyl/ Fun Club<br>Bl 2/ Y2 | Clwb Garddio /<br>Gardening Club<br>Bl 5 a 6/ Y 5 and 6 | Clwb Haf Bl 3 a 4/<br>Summer Club Y 3 and 4 |
| | Cân Actol<br>Bl 6/ Y 6 | Clwb Dartiau Bl 5 a 6/<br>Darts Club Y 5 and 6 |
| | | Ymgom Bl 6/ Y 6 |
| | | |

# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Mae hi'n______ heddiw. (Tywydd)
**Her**
Fe fydd hi'n …yfory
Roedd hi'n …ddoe

**Testun trafod yr wythnos**
Fy hoff lenwad brechdan i yw…

**Cân yr wythnos**
Bronwen Lewis - Ti a fi

**Idiom yr wythnos**
Tynnu nyth cacwn am dy ben